**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 21 Rhagfyr 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A Anthony | R Francis-Davies |
| L S Gibbard | H J Gwilliam | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | R V Smith |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): T J Hennegan

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 75. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 83 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 84 "Diwygiad y Consortiwm Addysg Rhanbarthol i'r Cytundeb Cyfreithiol ar bleidleisio o fewn y Cyd-bwyllgor."

## 76. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023.

## 77. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Setliad Cyllidebol Drafft 2024-2025**
Nododd Arweinydd y Cyngor fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad cyllidebol drafft 2024-2025.

**2) Adfywio ac Uchelgais Abertawe 2024**
Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai nifer o brosiectau allweddol Abertawe'n cael eu cyflwyno yn 2024; roedd y rhain yn cynnwys 71-72 Ffordd y Brenin, Theatr y Palace a Neuadd Albert. Mae'r rhain, ynghyd â chynlluniau eraill, yn dangos uchelgais y cyngor.

## 78. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 79. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 80. Ymchwiliad Craffu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Cyflwynodd y Panel Ymchwilio Craffu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol adroddiad a oedd yn cyflwyno'r canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion o ganlyniad i ymchwiliad y panel craffu i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyflwynodd y Cynghorydd T J Hennegan yr adroddiad.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

2) Rhoddir ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion craffu a'r camau gweithredu arfaethedig maes o law.

## 81. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2il 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2023/2024 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd materol uwch ynghylch darpariaethau cyflog cyfartal, a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad a'r ddarpariaeth chwyddiant fel y nodir ym mharagraff

4.3 yr adroddiad yn amodol ar unrhyw gyngor pellach gan y Swyddog Adran 151 yn ystod y flwyddyn.

3) Mae angen atgyfnerthu'r ffaith bod angen i bob Gyfarwyddwr barhau i leihau gwariant gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu cynlluniau adennill clir lle maent yn gorwario, gan gydnabod bod y gyllideb yn gytbwys yn gyffredinol ar hyn o bryd, ond trwy ddibynnu ar ad-daliadau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol (mae'r rhain ymhell o fod yn hollol sicr), cyllidebau wrth gefn a ddelir yn ganolog a mwy a mwy o gronfeydd wrth gefn yn unig.

4) Cydnabod bod yn rhaid lleihau gorwariant costau'r Gyfarwyddiaeth yn llwyr, trwy gynlluniau adennill, o ystyried y ddarpariaeth tâl arfaethedig, yn y flwyddyn bresennol drwy gamau adennill wedi'u targedu gyda disgwyliad clir o ddewisiadau ailseilio 'anodd' i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer rownd cyllideb 2024/2025.

5) Nodi'r gorwario dangosol ym mharagraff 6.1 yr adroddiad gyda chamau gweithredu pellach i'w cadarnhau yn y chwarteri dilynol unwaith y bydd rhagor o wybodaeth am gost derfynol debygol ar gyfer darparu codiad cyflog cyfartal.

## 82. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 2 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2023/2024.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi perfformiad y cyngor wrth gyflawni amcanion lles y cyngor yn Chwarter 2 2023/2024.

2) Nodi defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 83. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Blaenymaes | Sam Etheridge<br>Phatsimo Mabophiwa |
| Ysgol Gynradd Christchurch | Donnie Yuen |
| Ysgol Gynradd y Crwys | Linda Place |
| Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | Helen McLaughlin |
| Ysgol Gynradd Glyncollen | Y Cynghorydd Ceri Evans |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Tre-gŵyr | Richard Casey |
| Ysgol Gynradd Penclawdd | Howard Evans |
| Ysgol Gynradd Townhill | Janet Chaplin |
| Y G Bryntawe | Margaret Greenaway |

**84. Diwygiad y Consortiwm Addysg Rhanbarthol i'r Cytundeb Cyfreithiol ar bleidleisio o fewn y Cyd-bwyllgor.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddiwygio Cytundeb y Cyd-bwyllgor Partneriaeth i ganiatáu i bob Awdurdod Lleol cyfansoddol ddewis a ddylid enwebu eu Harweinydd neu Aelod y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros y portffolio Addysg i fod yn aelod â phleidlais ar y cydbwyllgor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Weithred Amrywio ddrafft yn Atodiad A yr adroddiad sy'n caniatáu i bob Awdurdod Cyfansoddol unigol benderfynu pwy ddylai fod yr aelod â phleidlais ar y Cyd-bwyllgor Partneriaeth.

2) Caiff Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu ei benodi fel yr aelod â phleidlais ar gyfer Cyngor Abertawe a'r aelod heb hawliau pleidleisio fydd Arweinydd Cyngor Abertawe.

3) Rhoi awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol gymeradwyo telerau terfynol y Weithred Amrywio ac ymrwymo i'r Weithred ar ran y cyngor.

**85. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - y Gronfa Trafnidiaeth Leol BAGC a Dyraniad Craidd Bysus Rhanbarthol 2023/24 a 2024/25.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol (CTL) ac i ychwanegu'r gwariant cyfalaf at y rhaglen gyflenwi ar gyfer prosiectau'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2023/2024 a 2024/2025. Roedd hefyd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo derbyn yr arian grant.

2) Dirprwyo awdurdod i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd a'r Cyfarwyddwr Lleoedd ar gyfer cynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a nodir ym mharagraff 2 yr adroddiad, a'u hychwanegu at y rhaglen gyfalaf yn unol â FPR7.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.03 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 21 Rhagfyr 2023 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 29 Rhagfyr 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 30 Rhagfyr 2023 |